Cenn@d

CHWEFROR 11 2026 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 259

# Cwlwm Cyhoeddwyr Cymru yn anrhydeddu D. Ben Rees

Pnawn Gwener, 6 Chwefror, ar ei aelwyd yn Lerpwl cyflwynwyd tlws blynyddol Cwlwm Cyhoeddwyr Cymru ar gyfer 2025 i'r Parch. Ddr D. Ben Rees. Derbyniodd y tlws drwy law Aled Davies, Cadeirydd presennol y Cwlwm, a hynny yng nghwmni rhai o'i gyfeillion. Cyflwynwyd tusw o flodau hefyd i'w briod, Meinwen, a fu'n gefn mawr (ac amyneddgar) wrth i Ben dreulio cymaint o'i amser yn ysgrifennu a golygu dros 120 o lyfrau. Braf oedd cael cwmni ei ffrindiau, Dr John Williams a Roderick a Norma Owen, yn bresennol hefyd. Derbyniwyd ymddiheuriad gan ei weinidog, y Parch. Robert Parry, nad oedd ar gael i ymuno â ni. Cyrhaeddodd Tinopolis hefyd i ffilmio eitem am y wobr ar gyfer y rhaglen *Heno*, a chafwyd cyfweliadau gyda *Newyddion S4C* a *Bwrw Golwg* i ddilyn. Roedd digon o fwrlwm a phrysurdeb ar aelwyd Garth Drive felly. Isod, ceir y datganiad a wnaed gan y Cwlwm Cyhoeddwyr am y wobr:



O'r chwith i'r dde: Dr John Williams, Meinwen Rees, Norma Owen, Parch Ddr D. Ben Rees, Roderick Owen, Aled Davies

Mae'n bleser gan Gwlwm Cyhoeddwyr Cymru gyhoeddi bod gwobr cyfraniad oes i fyd llyfrau a llenyddiaeth Cymru am 2025 yn cael ei chyflwyno i'r Parchedig Ddr D. Ben Rees, Lerpwl.

Bob blwyddyn, cyflwynir tlws i unigolyn sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol i'r byd llyfrau yng Nghymru, a'r enwebiad unfrydol ar gyfer tlws 2025 oedd enw D. Ben Rees. Mae'r Parchedig Ddr D. Ben Rees yn awdur toreithiog a chyhoeddwr blaengar ym maes llyfrau Cymraeg a Chymreig, a hefyd yn awdur a golygydd nifer o lyfrau Saesneg am Gymru ac ardal Lerpwl. Sefydlwyd ei wasg, Cyhoeddiadau Modern Cyf., yn 1963, gan weithredu o Abercynon yng Nghwm Cynon, cyn iddo symud i Lerpwl yn 1968. Caiff ei gydnabod fel hanesydd, darlithydd a diwinydd, ac fel gweinidog ffyddlon yn Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Mae'n un o arweinwyr y gymuned Gymraeg yn Lerpwl ers blynyddoedd lawer, a chyn iddo ymddeol treuliodd dros hanner canrif fel gweinidog eglwys Gymraeg Heathfield Road yn y ddinas honno. Fe'i ganed yn Llanddewibrefi, Ceredigion, ond mae wedi treulio'r rhan fwyaf o'i fywyd gwaith yn ninas Lerpwl.

O ran ei waith fel awdur a chyhoeddwr dros gyfnod o drigain mlynedd, mae D. Ben Rees wedi gweithio mewn pum maes:

**1. Heddwch a heddychiaeth**
Cyhoeddwyd y bywgraffiad *Mahatma Gandhi: Pensaer yr India* ganddo yn 1970. Y gyfrol hon oedd yr ysbrydoliaeth i gyfres o dri llyfr arall a ddilynodd ganddo ar heddychwyr Cymreig: *Herio'r Byd*, *Dal i Herio'r Byd* a *Dal Ati i Herio'r Byd*. Aeth ati hefyd i baratoi cyfrol ar Henry Richard, yr heddychwr o'i filltir sgwâr yn Nhregaron, yn ogystal â chyfrol ar hanes heddychiaeth, sef *Dilyn Ffordd Tangnefedd*, i nodi canmlwyddiant Cymdeithas y Cymod.

**2. Diwylliant Cymru a hanes Cymry amlwg**
Paratowyd nifer o lyfrau yn Gymraeg a Saesneg ganddo ar hanes Cymru a'i phobl. Cyflwyniad poblogaidd i'r wasg Gymreig a'r traddodiad eisteddfodol yw *Wales: The Cultural Heritage*, ac yn y gyfrol hon mae'n ceisio diffinio diwylliant Cymru. Lluniodd gofiant i Samuel Roberts, yr awdur a'r diwygiwr radicalaidd o Lanbryn-mair, ar gyfer y gyfres Writers of Wales. Rhwng 1975 a 2006 cafwyd ganddo ddeuddeg cyfrol yn ymdrin ag anghydffurfiaeth yng Nghymru ac astudiaethau ar Oes Fictoria. Ymhlith teitlau eraill y mae *Pymtheg o Wŷr Llên yr Ugeinfed Ganrif*, *Cymry Adnabyddus 1951–1972*, *Pwy yw Pwy yng Nghymru* a chofiant i'r gwleidydd Cledwyn Hughes.

**3. Hanes cymuned Gymraeg Lerpwl a glannau Mersi**
Mae Ben Rees yn cael ei gydnabod fel yr awdurdod pennaf ar hanes Cymry Lerpwl, ac yr oedd yn gyd-awdur, gyda'r Athro R. Merfyn Jones, y gyfrol *The Liverpool Welsh and their Religion* (1984). Ymhlith ei gyfrolau ar hanes Cymreictod y ddinas y mae *Cymry Lerpwl a'r Cyffiniau*, *Cymry Lerpwl a'r Cyffiniau yn yr Ugeinfed Ganrif*, *Y Cenhadwr Cyntaf o Blith Cymry Lerpwl: Josiah Hughes a Codi Stêm a Hwyl yn Lerpwl*. Yn fwyaf diweddar, ddechrau 2026, cyhoeddwyd ei gyfrol *Ar Drywydd Cymry Lerpwl* gan wasg y Lolfa.

**4. Diwinyddiaeth a hanes cenhadaeth fyd-eang**
Caiff Ben Rees ei gydnabod fel ysgolhaig ac arbenigwr ar fywyd a hanes John

(parhad ar y dudalen nesaf)

Ailstrwythuro – cadw'r tân ynghyn
Tudalen 3

Pynciau Perthnasol – colofn Rosa Hunt
Tudalen 5

Pregethu yn Gymraeg yn Lloegr
Tudalen 7

## *Cwlwm Cyhoeddwyr Cymru yn anrhydeddu D. Ben Rees*

*(parhad o dudalen 1)*

Calfin a Chalfiniaeth, a chyhoeddodd bedwar llyfr ar y pwnc, tri yn Gymraeg, yn ystod y cyfnod 2008–2012, yn cynnwys *John Calfin a'i Ddisgyblion Cymreig*. Cyflwynodd y Ddarlith Davies ar John Calfin a'r Cyfundeb yng Nghymanfa Gyffredinol ei enwad, ac fe'i cyhoeddwyd dan y teitl *Y Gwron o Genefa: John Calfin a'i ddylanwad*. Mae ei gyfrol ddiweddaraf, *Cenhadaeth y Cymry*, sydd i'w chyhoeddi gan Gyhoeddiadau'r Gair ym mis Mawrth eleni, yn rhoi darlun i ni o hanes cenhadon a aeth o Gymru i bedwar ban byd, gan roi cipolwg ar waith cenhadol yr holl enwadau yng Nghymru.

**5. Defosiwn a gweddïau**
Cyhoeddwyd nifer o lyfrau defosiynol a gweddi gan Ben Rees dros gyfnod o drigain mlynedd, dan faner Cyhoeddiadau Modern Cyf. a gyda Chyhoeddiadau'r Gair, gan gynnwys cyfrol gynhwysfawr ar ddefosiwn y Grawys a'r Pasg. Mae'r gyfrol *Rhedeg yr Yrfa fel Gweinidog yr Efengyl* yn cynnwys trigain o bregethau a'i hunangofiant fel gweinidog yn Lerpwl.

Dros gyfnod o drigain mlynedd cyhoeddwyd dros gant o lyfrau gan D. Ben Rees, yn ogystal ag erthyglau ac ysgrifau i bob math o gylchgronau crefyddol a hanesyddol. Bu'n olygydd 'Y Pedair Tudalen' yn y papurau enwadol am gyfnod o wyth mlynedd, yn ogystal â'r cylchgrawn *Etifeddiaeth*.

Fel Cwlwm Cyhoeddwyr Cymru, estynnwn ein llongyfarchiadau gwresog iddo, gan ddiolch am ei holl egni a'i ymroddiad i'r byd llyfrau yng Nghymru.




Llun o'r tlws a gyflwynwyd, wedi ei greu o ddarn o lechen Gymreig Stiniog

# Minnesota – Minneapolis a Mankato

Grym yw arwyddair yr Unol Daleithiau dan arlywyddiaeth Trump bellach. Gwyddom mai dyna arwyddair cudd y wladwriaeth cyn dyddiau Trump, ond erbyn hyn 'does yna ddim ymdrech i'w guddio, a daeth trais a gormes yn rhan o fywyd bob dydd pobl gyffredin ym Minneapolis, dinas fwyaf talaith Minnesota.

Gwelsom oll y fideos dychrynllyd o saethu Nicole Good i farwolaeth. Clywsom sut y mae'r wladwriaeth yn ceisio cyfiawnhau'r drosedd erchyll hon gan un o swyddogion ICE (Immigration and Customs Enforcement), llu arfog sydd yn cael ychydig iawn o hyfforddiant a rhwydd hynt i ddefnyddio trais eithafol. Aeth yr awdurdodau cyn belled â chwilio i gefndir Nicole Good er mwyn pardduo'i henw, er mai'r hyn a wnaeth i dramgwyddo oedd bod yn dyst i weithgaredd ICE. Cipiwyd Liam Ramos, bachgen pum mlwydd oed, gan ICE a'i anfon i wersyll yn Texas. Ac eto, cyfiawnhau hyn wna rhai fel yr Is-arlywydd J. D. Vance, sy'n honni bod yn Gristion o argyhoeddiad.

Dan yr esgus eu bod yn chwilio am fewnfudwyr anghyfreithlon, yr hyn a wnânt yw codi dychryn ar bobl gyffredin ddiniwed. Mae ar famau ofn anfon eu plant i'r ysgol, mae pobl yn ofni mynd allan i siopa; mae'n beryglus mentro allan i'r strydoedd.

Nid yw hyn yn ddamweiniol. Mae'n rhan o'r ymdrech i wneud yr Unol Daleithiau yn wladwriaeth a reolir gan unben. A chofiwn fod yna gymeriadau amheus iawn yn rhan o lys y 'Brenin' Trump, a biliwnyddion sy'n hapus iawn i elwa dan wladwriaeth o'r fath. Mae'r wlad ar lwybr peryglus allai arwain at ffasgaeth lwyr.

Byddai'n ddealladwy os byddai trigolion Minneapolis yn plygu i'r drefn, ac yn peidio â chymryd sylw o'r hyn sy'n digwydd yn eu dinas.

OND NID FELLY Y MAE HI.

Mae miloedd ar filoedd wedi bod allan yn protestio – a hynny ar ddiwrnod ffiaidd o oer – gan ddangos yn eglur bod parch at gyd-ddyn yn cyfri, bod trais yn annerbyniol, a bod goddefgarwch yn bodoli yn eu plith. Caeodd llawer o fusnesau am y dydd, am fod egwyddor yn drech nag elw.

Efallai y bydd Minneapolis yn drobwynt yn y frwydr i wrthwynebu trais, gormes a ffasgaeth. Efallai y gwelwn ddewrder a chymod yn trechu gynnau a chreulondeb. Fel erioed, pobl ddewr ar lawr gwlad sy'n greiddiol yn hyn oll. Gobeithiwn mai felly y bydd hi.

Gwelodd talaith Minnesota anghyfiawnderau arswydus yn y gorffennol. Yn nhref Mankato, sydd rhyw 80 milltir o Minneapolis, crogwyd 38 o lwyth y Dakota – y nifer mwyaf i gael eu crogi ar yr un pryd yn hanes yr Unol Daleithiau, a hynny yn 1862 dan arlywyddiaeth Abraham Lincoln. Dyma oedd canlyniad Rhyfel Dakota, pan oedd y dyn gwyn yn dwyn tiroedd pobl Dakota er mwyn cael gafael ar eu tiroedd a'u cyfoeth naturiol. Canu cloch, tybed?

Ac eto, daeth ymdrech at gymod ac iachâd a maddeuant pan gynhaliodd y Dakota daith o 330 milltir ar gefn ceffylau yn 2009 i gofio'r achlysur. Mae urddas y bobl hyn yn arbennig, fel y gwelwch os gwyliwch chi ffilm o'r daith ar YouTube: https://www.youtube.com/watch?v=1pX6FBSUyQI (Os cewch anhawster, ewch i wefan YouTube a chwilio am Dakota 38). Yn y bôn, yr un yw gwraidd beth ddigwyddodd ym Mankato ers talwm a'r hyn sy'n digwydd ym Minneapolis a dinasoedd ledled y wlad heddiw. Hiliaeth. Y gred mai'r dyn gwyn sydd efo'r hawl i dra-arglwyddiaethu; efo'r hawl i benderfynu ar sail lliw croen pwy i'w dargedu; efo'r hawl i feddiannu tiroedd pobl eraill; efo'r hawl i lygru'r ddaear. A'r hawl i fychanu'r 'gwahanol' fel nad ystyrir eu bod yn bobl go iawn, ac felly heb unrhyw hawliau dynol.

Bydd y rhai ohonoch sydd wedi darllen hanes yr Unol Daleithiau'n gwybod mai dyna yw sylfaen athronyddol y wlad, a dyna sy'n egluro hil-laddiad pobloedd gynhenid: athrawiaeth 'Manifest Destiny'. Esblygiad o hyn yw traha Trump a'i wladwriaeth i fynnu bod ganddo'r hawl i ddwyn gwledydd, i herwgipio arlywydd gwlad arall, ac i fod yn fwli ar y llwyfan rhyngwladol. Mae hiliaeth Trump yn cynnwys pobl wyn erbyn hyn, os nad ydyn nhw'n dod o'r Unol Daleithiau!

Daeth yr awr i ni i gyd ddangos fod modd i gymod a chariad a maddeuant drechu, ond mae angen ymdrech arwrol i gyflawni hynny gan bob un ohonom. Mae Minneapolis wedi dangos y ffordd. Gall fod yn drobwynt i'r Unol Daleithiau ac i'r byd cyfan.

*Robat Idris*
*Cymdeithas y Cymod yng Nghymru*

# Ailstrwythuro – cadw'r tân ynghyn

Er gwaethaf pob bygythiad o eira a gwynt, fe fynychodd amryw ohonom gynhadledd yng Nghapel y Groes, Wrecsam, ar ailstrwythuro Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Efallai ichi glywed sôn am y gynhadledd ar y radio neu'r cyfryngau, neu eich bod yn un o'r 150 a ddaeth ynghyd fel rhan o'r broses ailstrwythuro y dechreuodd yr enwad arni y llynedd.

Roedd hi'n syndod faint o arweinwyr o wahanol ardaloedd oedd wedi dod ynghyd, ac yn syndod hefyd faint o sylw a gafodd y gynhadledd ar y cyfryngau Cymraeg. Pam hynny, tybed? Allwn ni ddim ond tybio bod y sylw cyffredinol a roddwyd i broses sy'n golygu newidiadau mewnol a strwythurol i un enwad anghydffurfiol Cymreig, yn ogystal â'r sylw a roddwyd gan yr aelodau eu hunain a'u hawydd i fynychu'r gynhadledd, yn arwyddo bod ots ganddyn nhw am ddyfodol ein heglwys yma yng Nghymru. Dengys fod ots gan y genedl ei hun, ac ots gan yr eglwys hefyd wrth i'w ffyddloniaid ddod ynghyd a mynegi eu cariad at yr Eglwys a'i Phen.

Roedd digon o gyfle i drafod ac i bawb ddweud ei ddweud yn ystod y dydd wrth inni gael ein rhannu'n grwpiau i drafod agweddau gwahanol ar yr ailstrwythuro. Ond yn y rhan gyntaf cafwyd cyfnod o fawl ac astudio'r geiriau sy'n thema i'r holl drafod: 'Edrychwch, rwyf yn gwneud peth newydd' (Eseia 43:19). Cawsom edrych ar y bennod gyfan dan arweiniad **Nan Powell-Davies**, yr Ysgrifennydd Cyffredinol.



Cyfeiriodd at addewid yr Arglwydd i fod gyda ni drwy ddŵr a thân; ar ein galwad i fod yn dystion iddo yn ein hoes; ac ar ei faddeuant o'n llesgedd a'n hunanoldeb a'n diffygion wrth iddo barhau i wneud peth newydd yn ein hoes ninnau drwy Efengyl Iesu Grist.

Pwysleisiodd **Wayne Adams**, Cyfar-wyddwr Cynorthwyol Gweinidogaethau EBC, fod newid wedi bod yn rhan allweddol o'r eglwys ers yr Eglwys Fore a chyn hynny yn hanes yr eglwys, pobl Dduw yn yr Hen Destament. Atgoffodd ni, cyn inni rannu ein gobeithion, ein breuddwydion a'n dyheadau ar gyfer dyfodol Eglwys Bresbyteraidd Cymru, pwy ydym ni – nid



yng ngolwg y byd o'n cwmpas, ond yng ngolwg Duw ei hun:

- pobl wedi eu dewis, nid sefydliad diwylliannol
- priodasferch Crist
- rhan o'r winwydden gyda'r bwriad o fod yn ffrwythlon
- praidd wedi'i gasglu ynghyd
- teml ac ysbryd
- bod gweinidogaeth gan yr holl saint
- ein bod yn Gorff Crist
- wedi ein caethgludo fel cenedl Israel, ac eto'n obeithiol.

Beth fyddwn ni'n gobeithio amdano ymhen deng mlynedd? A chyda chymorth yr Arglwydd, sut y gallwn ni weithio gyda'n gilydd i wireddu'r dyheadau, y gobeithion a'r breuddwydion sydd gennym? Roedd y dyfyniad a rannwyd o waith yr Esgob Ken Untener, a fu'n esgob ym Michigan, yr Unol Daleithiau, yn dweud yn dda am y pethau yr ydym i fod ynglŷn â nhw ar hyn o bryd mewn gobaith am a ddaw:

> Dyma'r pethau yr ydym ynglŷn â nhw.
> Plannwn hadau a fydd yn tyfu ryw ddydd.
> Dyfrhawn hadau a blannwyd eisoes, gan wybod bod gobaith am yfory ynddyn nhw.
> Gosodwn sylfeini y bydd angen eu datblygu ymhellach.
> Darparwn lefain a fydd yn tyfu'r tu hwnt i'n gallu i'w ddefnyddio.
> Allwn ni ddim gwneud pob dim, ac mae rhyddid o sylweddoli hynny.
> Galluoga hyn inni wneud rhywbeth, a'i wneud gyda graen.
> Efallai na fydd yn orffenedig, ond mae'n ddechrau, yn gam ar hyd y daith, ac yn gyfle i ras ein Harglwydd gael ei le a gwneud yr hyn fydd yn aros.
> Efallai na welwn ni fyth y gwaith ar ben, ond dyna'r gwahaniaeth rhwng y Prif adeiladwr a'r gweithiwr.
> Gweithwyr ydym ni, nid prif adeiladwyr; gweinidogion nid gwaredwyr.
> Proffwydi dyfodol nad yw'n eiddo inni.

Rhannodd y Parch. Ganon **Tim Rowlands**, Cyfarwyddwr y Gynghrair Efengylaidd yng Nghymru ac sy'n addoli yn un o'n heglwysi ym Mangor Is-y-coed, ei brofiad o ailstrwythuro enwad yr Assemblies of God. Mae hwn un o'r tri enwad Pentecostaidd mawr ym Mhrydain, a bwriad y cynllun




ailstrwythuro oedd eu cynorthwyo i ganfod eu llais cenhadol eto.

Roedd wedi ei galonogi o'r hyn a ddarllenodd yn ein dogfen Ailstrwythuro am genhadaeth leol, cydweithio rhanbarthol ac eglurdeb cenedlaethol. Cyfeiriodd at yr adnod ym mhroffwydoliaeth Eseia sy'n sôn am y bachgen a aned inni: 'Ni bydd diwedd ar gynnydd ei lywodraeth, nac ar ei heddwch ni bydd diwedd' (Eseia 9:7a). Mae cyswllt uniongyrchol, meddai, rhwng heddwch a llywodraeth dda, a hynny er mwyn dod â *shalom* Duw i fyd sydd â chymaint o angen amdano. Cyn rhannu gwersi pellach o hanes Nehemeia yn y Beibl, fe gawsom ein hatgoffa o eiriau'r cyfansoddwr Gustav Mahler: 'Nid addoli'r lludw yw traddodiad, ond cadw'r tân ynghyn'. Y tân hwnnw a fu yn ein plith o'r dechrau ac a welwyd yn hanes ffyddlondeb ac ufudd-dod llawer o'n cewri hyd at ein dyddiau ninnau, yw'r hyn sydd angen ei gadw ynghyn.

Wrth grynhoi'r hyn a glywyd yn ystod y dydd a chan yr wyth grŵp trafod fu'n pori dros yr ystyriaethau yn y ddogfen ailstrwythuro (trafodaethau fydd yn cael eu rhannu eto fel rhan o'r broses ymgynghori hon), fe ddaliodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol yn y gwersi a ddysgwyd o hanes Nehemeia. Yn yr hanes hwnnw, bu ymdrech i adnabod y broblem, ceisio Duw am yr ateb, cydnabod gras Duw tuag atyn nhw hyd hynny, a bod yn atebol i'w gilydd yn y gwaith o adfer y muriau oedd wedi cael eu bylchu.



Clowyd y dydd gydag epilog dan ofal Llywydd y Gymanfa Gyffredinol, **Glynis Owen**. Fe aeth hi â ni at hanes yr Eglwys Fore yn Llyfr yr Actau yn chwyldroi'r byd heb nac arian na grym, na dylanwad bydol, ond wedi eu grymuso gan yr Ysbryd Glân. Rhoddodd ddiolch am bob gweithred o ffydd yn Nheyrnas Dduw gan ofyn ar i Dduw ein bendithio eto â diwygiad o'i Ysbryd Glân ac i hynny fod yn destun gweddi yn ein plith.

(parhad ar y dudalen nesaf)

## *Ailstrwythuro – cadw'r tân ynghyn*

*(parhad o dudalen 3)*

I gael golwg ar yr argymhellion yn y ddogfen ailstrwythuro a chymryd rhan yn yr ymgynghoriad, ewch i'r wefan: Eglwys Bresbyteraidd Cymru | Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Dyma sylwadau croestoriad o arweinwyr yr enwad mewn ymateb i gwestiwn a roddwyd iddyn nhw gan John Roberts mewn eitem am y gynhadledd ar raglen *Bwrw Golwg* bnawn Sul, 1 Chwefror. Dilynwch y ddolen hon i glywed yr adroddiad o'r gynhadledd gan John Roberts tua diwedd y rhaglen: **Bwrw Golwg**

**Holodd John: Beth yw'r ysbryd a welwn ni yn y gynhadledd yma?**



Dwi'n meddwl ei fod e'n syniad bendigedig, yn fy marn i. Mae hi'n gyfle inni ailedrych o'r newydd ar beth yw'r eglwys, beth yw'r anghenion, yn hytrach na dim ond edrych ar strwythur y pwyllgorau ac yn y blaen. Na, edrych ar yr eglwys yn ganolog a'n bod ni'n rhoi cyfle i bobl leol i arwain. Mae hwn yn gam ymlaen tra'n bod ni'n dal i allu gwneud hynny fel eglwysi.

*Parch. Emyr Williams, Meidrim*

Ydy, mae o wedi bod yn ddiwrnod arbennig ac rydan ni wedi cael cyfle i rannu ac ati a chael gweledigaeth, ac mae'r teimlad yna bod yna ysbryd da ynglŷn â'r peth (yr ailstrwythuro). Dwi'n meddwl fod pawb yn gytûn bod yr amser wedi dod. Ac efo'n gilydd fe allwn ni symud ymlaen. Mae yna lawer iawn o syniadau ac o ddoniau a sgiliau oddi fewn i'n heglwysi a'n cymdeithasau ni, ac felly mae hyn yn dod â fo i gyd at ei gilydd. Ond cael y cynllun sy'n bwysig. Fel mae hanes yn dweud wrthym ni, yn lleol mae pob dim yn cychwyn, a hwythau wedyn yn dylanwadu ar y cyfeiriad yr eir iddo. Mae pob man yn wahanol a'r gofynion yn wahanol, ond y neges ydy bod y sgiliau a'r doniau gennym ni, ac mae yna deimlad y bydd pethau yn codi eto, o'r llawr i fyny.

*Parch. Owain Ll. Davies, Llanrwst*



Mae hi'n galonogol dros ben fod yna gymaint wedi gwneud yr ymdrech i fod yma heddiw – yn eithaf anhygoel, a dweud y gwir, ond yn arwydd fod pobl yn barod i wynebu heriau a newid. Mae'r sgwrs yn dueddol o fynd rownd mewn cylchoedd oherwydd ein bod ni'n ansicr am beth sydd angen ei wneud, a dydyn ni ddim eisiau gollwng gafael ar bethau. Rydan ni'n hoffi cadw trefn a chadw rheolaeth ar bethau, ac mae hynny'n eliffant yn yr ystafell – nad yden ni ddim wedi dechrau ei fwyta eto (gan ddefnyddio delwedd yr Ysgrifennydd Cyffredinol bod y broses yma 'fel bwyta eliffant')!

*Parch. Anna Jane Evans, Caernarfon*



Mae angen dipyn o feddwl yn wahanol os yden ni am greu strategaeth ar gyfer y dyfodol. Os yden ni am gadw ein traddodiad a'n hetifeddiaeth Gristnogol, mae'n rhaid inni feddwl dipyn bach yn wahanol. Mi fydd o'n help os yden ni'n fodlon dod at ein gilydd. Ond mae gen i ffydd o hyd y bydd y dystiolaeth Gristnogol yn parhau.

*Huw Roberts, Dyffryn Conwy*



Mae mwy o gwestiynau'n cael eu codi nag sydd o atebion; er enghraifft, beth fydd yr ailstrwythuro yn ei olygu i'n capel ni? Mae'n dda yn sicr ein bod ni'n cael cyfle – y tri mis nesaf yma – i ymgynghori. Rydym wedi cael cyfle da heddiw i rannu profiad a syniadau newydd. Mae'n codi cwestiynau ynghylch beth ydy gweinidogaeth a beth ydy cenhadaeth. Hefyd sut y gallwn gydweithio efo enwadau eraill. Mae'n resyn mawr na lwyddwyd, flynyddoedd yn ôl, i wireddu'r weledigaeth a geir yn efengyl Ioan 17:21 am undod Cristnogol.

*Vaughan Salisbury, Glynceiriog*



Fe wnes i fwynhau beth ddywedodd Wayne Adams yn ei gyflwyniad ar y dechrau. Roedd o'n sôn am y ffordd yr oedd yr Eglwys wedi newid ar hyd y canrifoedd, ac mewn gwirionedd dyna'i chryfder hi. Dyma'r her ryden ni'n ei hwynebu nawr. Ryden ni'n wynebu newid yn ein sefyllfa drwy'r amser, felly mae'n rhaid inni ddod at ein gilydd a meddwl am yr Eglwys, sut y gallwn ni aildrefnu'r eglwys fel ei bod hi'n berthnasol i'n cymunedau heddiw yng Nghymru. Dwi'n gobeithio nawr y bydd pob un ohonom yn mynd oddi yma gyda'r cwestiynau yna yn ein meddyliau, oherwydd does yna ddim un ateb. Ond bydd cael cyfle i feddwl am hyn yn fendith mawr i'r Eglwys.

*Parch. Owen Griffiths, Ferndale*



Does dim gwir deimlad o ddigalondid yma o gwbl; yn hytrach, mae yna ymdeimlad o gyffro. Rydyn ni ar hyn o bryd mewn cyfnod ymgynghorol, ac roedd pobl yn awyddus i gael y cyfle i gyfrannu i'r sgwrs. Roedd hi'n amlwg bod llawer yn edrych ymlaen at weld gwawr newydd ac yfory newydd, ac at archwilio sut allai hynny edrych yn ymarferol.

I lawer, mae'r eglwys leol yn rhan ganolog o'r ateb. Mae yna awydd i weld eglwysi byw sy'n teimlo fel teuluoedd — yn gofalu am ei gilydd, yn gwasanaethu ei gilydd, ac yn dangos cariad mewn ffyrdd ymarferol. Wrth gwrs, mae lle i blannu eglwysi newydd ac i ddatblygu gweinidogaethau sy'n edrych yn wahanol, ond mae'r un mor bwysig sicrhau cefnogaeth i'r eglwysi sydd eisoes yn bodoli. Mae yna lawer o eglwysi bach sydd â bywyd ynddyn nhw ac sydd angen cefnogaeth a help, fel y gallan nhw barhau i dyfu. Dydy'r twf hwnnw o reidrwydd yn golygu mwy o bobl ar y meinciau, ond dyfnhau perthynas yr aelodau efo'r Arglwydd.

*Angharad Clwyd, Llanuwchllyn*

# Pynciau Perthnasol – colofn Rosa Hunt



Bob mis Ionawr dwi'n treulio wythnos yn Amsterdam – nid gwyliau, ond rhan o'm gwaith fel Athro yng Ngholeg Rhyngwladol y Bedyddwyr. Mae'r coleg yma (oedd yn Rushlikon i ddechrau, wedyn yn Prague ac sydd nawr wedi'i leoli yn Amsterdam) yn gwasanaethu'r eglwys fyd-eang gan gynnig cyfle i fyfyrwyr o bedwar ban y byd i ddod a gwneud gwaith ymchwil diwinyddol. Yn aml iawn, mae'r myfyrwyr yn dod o lefydd lle byddai'n anodd iddyn nhw gael addysg ddiwinyddol o safon uchel. Ac mae mynediad i lyfrgelloedd ac adnoddau'n gallu bod yn anodd iawn os ydych chi'n dod o wlad lle mae rhyfel, fel Wcráin neu Lebanon. A dweud y gwir, wnaeth un fyfyrwraig o Lebanon ddim cyrraedd y gynhadledd oherwydd problemau gwleidyddol yn yr ardal.

Felly, mae'n fraint enfawr gallu helpu'r myfyrwyr hyn, ac os oes diddordeb gydag unrhyw un ohonoch i wneud gwaith ymchwil gyda nhw, byddan nhw'n falch o glywed gennych! Mae dau fyfyriwr gyda fi ar hyn o bryd – mae un yn ymchwilio i'r defnydd o'r damhegion ym mhregethau gweinidogion Bwlgaria o dan erledigaeth y *regime* comiwnyddol, a'r llall yn edrych ar y canlyniadau cymdeithasol sy'n dilyn o gyfeirio at Dduw gan ddefnyddio rhagenwau gwrywaidd!

Ond un o uchafbwyntiau'r wythnos yw'r cyfle i wrando ar y myfyrwyr eraill yn cyflwyno'u hymchwil nhw. Ac eleni, roedd un dyn o Belarus yn ymchwilio i'r ffactorau sy'n achosi i eglwys dyfu neu grebachu. Ac roedd yn ddiddorol iawn clywed am ei ymchwil sy'n dangos taw grwpiau bach yw un o'r prif ffactorau sy'n achosi twf yn eglwysi'r Bedyddwyr yn Belarus. Yn ystod ei ymchwil, roedd eglwysi oedd yn annog eu haelodau i gwrdd mewn grwpiau bach wedi tyfu 10% ar gyfartaledd.

Fe wnaeth y myfyriwr yna sôn am ymchwil wahanol oedd wedi dangos nad ydy gweinidog yn gallu cynnal perthynas fugeiliol go iawn gyda mwy na 30 aelod ar yr un pryd. Felly, mae grwpiau bach yn well am ddarparu gofal bugeiliol. Maen nhw'n well hefyd am helpu pobl i drafod a dysgu am eu ffydd, ac am annog pobl i weddïo dros ei gilydd. Yn y drafodaeth yn dilyn y cyflwyniad, esboniodd dyn o Rwsia fod rhywbeth tebyg wedi bod yn llwyddiannus iawn yn Rwsia: mae'r aelodau'n cwrdd mewn grwpiau bach lleol bob wythnos, ac wedyn unwaith y mis mae'r holl grwpiau'n dod at ei gilydd i addoli fel un gynulleidfa. Dwi'n cofio'r Dr Andrew Clarke o'r Alban yn rhoi darlith ddiddorol dros ben yng Ngholeg y Bedyddwyr, Caerdydd, am syniad tebyg oedd wedi cael ei arbrofi yno – 'eglwysi micro'.

Dwi'n meddwl y gallwn ni yma yng Nghymru ddysgu o'r gwaith arloesol sy'n digwydd mewn gwledydd eraill ledled Ewrop sy'n eu cael eu hunain mewn sefyllfa ôl-Gristnogol. Efallai fod ein cyd-destun cenhadol ni'n debycach nag ydyn ni'n ei sylweddoli gyd-destun ein chwiorydd a'n brodyr mewn gwledydd fel Belarus. Byddai'n ddiddorol iawn clywed am eglwysi a chapeli'r Bedyddwyr yng Nghymru sydd wedi arbrofi gyda phatrymau tebyg o fod yn eglwys Iesu Grist.

# Perthyn yng Nghrist: cynnig gweledigaeth llawn gobaith o heddwch i bawb




## Cyflwyniad

Bob blwyddyn yn ystod y Grawys mae grwpiau eciwmenaidd lleol yn treulio amser gyda'i gilydd yn myfyrio ar gynnydd ein gwaith tuag at undod Cristnogol ac yn herio'u hunain i weithredu ar y materion hynny o bryder cyffredin. Mae Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon (CTBI) yn ceisio cefnogi ac annog y gwaith hwn trwy adnoddau sy'n cysylltu â'r prif themâu sydd wedi codi yn ein deialog eciwmenaidd Prydeinig–Wyddelig.


Eleni rydym am rannu rhywfaint o'r dysgu sy'n deillio o'n myfyrdodau ar themâu gwrthdaro sy'n seiliedig ar hunaniaeth, rhwystrau i berthyn a'r pwysau sy'n deillio o hynny ar berthnasoedd. Mae'r heriau y byddwn yn eu hystyried yn y gwaith hwn yn rhai sy'n ein digalonni ac fe allant ein llethu: dieithrio gwleidyddol, darnio, polareiddio, arwahanrwydd, casineb at yr arall, a phrofiad a bygythiad o drais.

Er gwaethaf graddfa a difrifoldeb yr heriau hyn, mae ein sgyrsiau wedi bod yn rhai sy'n grymuso ac yn llawn gobaith. Cawn gefnogaeth yn yr undod â phobl sy'n rhannu'r un pryder am gymunedau clwyfedig ac sy'n gweld gobaith yn rhodd y ffydd a rannwn, ac yn ganolog i hynny mae addewid Crist o heddwch. Yn yr Ysgrythur rydym nid yn unig yn cael ein hatgoffa o'n cyfrifoldeb i weithredu, ond fe gawn hefyd ysbrydoliaeth ar gyfer y weithred honno yng Ngair Duw ac esiampl Crist.

Ar adeg pan mae'r Eglwys hefyd yn cael ei heffeithio gan effeithiau difaol naratifau cynhennus sy'n polareiddio, gan geisio diffinio perthyn yn nhermau gwrthod neu eithrio'r arall, mae'n hanfodol ein bod yn rhannu'r hyn a ddysgwyd o'n gwaith ar undod Cristnogol, yn cynnwys myfyrio'n hunan-feirniadol ar ein diffygion a'n methiannau. Gall hyn fod yn fwyfwy anodd wrth i ni ddod ar draws difaterwch a gelyniaeth cynyddol, ond wrth sefyll a siarad â'n gilydd gallwn gefnogi ein gilydd a chynyddu effaith ein hymdrechion.

## Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26




### Codi'r Llen 16 – Ymson gwraig gyntaf Samson

Cyn imi weld Samson am y tro cyntaf, ro'n i'n ferch ifanc, ysgafndroed – yn fodlon fy myd. Yna newidiodd popeth. Yn ddiarwybod imi ar y pryd, roedd Samson wedi fy ngweld ac wedi mynnu fy nghael. Ro'n i'n gobeithio na fyddai'n llwyddo. Doeddem ni'r Philistiaid ddim yn gyfeillion iddyn nhw'r Nasareaid. Fyddai fy rhieni, na'i rieni yntau, ddim yn hapus inni briodi; ond ychydig a wyddwn nad oedd dewis gen i.

Daeth Samson i'm gweld, ac wedi iddo gyrraedd, adroddodd stori wrthyf am lew ifanc yn rhuthro tuag ato ar ei daith. Disgrifiodd sut yr oedd rhyw gryfder aruthrol wedi codi ynddo a'i fod wedi rhwygo corff y llew yn ddarnau! Ro'n i'n teimlo fel cyfogi wrth wrando arno – yn bennaf oherwydd manylion y stori ond hefyd am ei fod yn canmol ei hun cymaint. Gwyddwn y dylwn wrando arno: gogwyddo fy mhen, codi f'aeliau, a rhoi'r argraff ei fod yn arwr yn fy ngolwg. Doedd o heb ddweud wrth ei rieni am y llew, felly fi oedd yr unig un a wyddai amdano. Ces fy synnu gan nad oeddwn yn ei adnabod mewn gwirionedd, a dim ond dwywaith ro'n i wedi'i weld. Doedd o ddim wedi gofyn imi beth oedd f'enw. Sut allwn i wybod allwn i fod yn wraig iddo? Ond doedd merched fel fi ddim yn cael dewis.

Ymhen ychydig, roedd Samson ar ei ffordd i fy ngweld; digwyddodd rhywbeth ac aeth yn ôl at ei rieni. Ond fe ddaeth eto, er mwyn fy mhriodi y tro hwn, a'i dad efo fo. Arferai dynion gael parti mawr cyn priodi, a daeth llawer ynghyd i gael amser da. Roedd Samson yn fwy na phob un ohonynt mewn sawl ffordd – yn fwy o gorff, yn ei flys am bethau, yn fwy yn ei ddyheu am ennill bob tro. Roedd yn rhaid imi eistedd yn fach wrth ei ymyl â'm hwyneb wedi'i orchuddio. Penderfynodd Samson chwarae gêm a rhoi pos i'r dynion. Safodd yn hyderus o'u blaenau a'i lygaid yn eu herio. Teimlais fod perygl wedi curo ar y drws ac wedi dod i mewn, ac na chefais unrhyw ddewis.

Fe aeth y parti ymlaen am ddyddiau a doedd neb ohonynt yn gallu dyfalu'r pos. Toc, daethant ata' i a gorchymyn imi ei hudo er mwyn cael yr ateb ganddo. Os byddwn yn ymatal, byddent yn llosgi tŷ fy nhad a'm mam, a minnau gyda nhw. Meddyliais am dynged fy rhieni a sylweddolais nad oedd dewis gen i.

Yna wylais. Wylais wrth ei ymyl, ar ei ysgwydd, ar ei fraich, drosto i gyd. Wylais a thynnu ei sylw gan gwyno nad oedd yn fy ngharu. Galwodd fi'n ffŵl, ond daliais ati i daeru a chwarae â geiriau, hyd nes ei fod wedi syrffedu. Erbyn y seithfed dydd, roeddwn wedi llwyddo i gael y gyfrinach ohono, a gwyddwn ei fod wedi bwyta'r mêl o 'sgerbwd y llew – rhywbeth na ddylai fod wedi'i wneud.

Es at y dynion a rhannu'r gyfrinach. Doedd gen i ddim dewis. Diflannodd y wên oddi ar wyneb Samson a gadawodd mewn storm o wylltineb. A beth amdanaf fi? Ches i ddim dewis wedyn chwaith. Fe ges fy rhoi i ddyn arall: y gwas priodas! A dyna ddiwedd y stori i Samson a fi.

Mae pobl wedi sôn llawer am y dyn cryf yn colli'i nerth ac am ei wendid gyda merched. Efallai fod hynny'n wir. Ond pam nad oes neb yn siarad am y merched sy'n gorfod cario beichiau dynion, gemau dynion, rhyfela dynion, gwylltineb dynion?

Nid troednodyn ydw i. Mae gen i enw, er na wyddoch beth ydyw. A cofiwch na chefais ddewis.

**Holi**

- Pe bai'n rhaid ichi ddewis, ar bwy neu beth fyddech chi'n rhoi'r bai yn y stori hon?
- Oes yna ferched neu ddynion y gwyddoch chi amdanynt sy'n gorfod delio â disgwyliadau annheg, pwysau mawr, trais neu greulondeb?
- Ydyn ni'n gweld enghreifftiau o ferched neu ddynion heddiw yn sigo dan bwysau ffordd o fyw neu ddiwylliant, neu'n cael eu llyffetheirio gan draddodiadau crefyddol (hyd yn oed yn ein crefydda ni)?
- Diflannodd stori'r wraig gyntaf i bob pwrpas i gefn llwyfan drama Samson. Sut mae storïau merched neu ddynion heddiw yn cael eu hanwybyddu neu eu lleihau oherwydd pwysigrwydd ceffylau blaen yn ein byd?

**Gweddi**

Gwna ni'n ddewr i sefyll dros gyfiawnder a thegwch.
Gwna ni'n gryf pan fyddwn yn gweld rhywun yn cael eu cam-drin.
Gwna ni'n ddoeth i wybod beth ddylem ei wneud i fod o gymorth i eraill mewn angen.
Gwna ni'n rhagweithiol yn ein hymwneud â'n gilydd.
Gwna ni'n dosturiol ac yn edifeiriol. Amen.

*Siân Meinir*

S4C

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 15 Chwefror, am 7:30yh – Y Grawys**
Mae Rhodri Gomer yn edrych ymlaen at y Grawys
ac fe gawn ni berfformiad arbennig gan Elidyr Glyn.

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 15 Chwefror, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Iwan Llewelyn Jones

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 15 Chwefror, am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Naomi Wood, Porthaethwy

## Dim ond Atgofion Hapus!

Roedd hi'n ddiwrnod chwerw-felys heddiw [dydd Sul, 1 Chwefror] ym Methel, Birmingham, lle y cychwynnais i fy ngyrfa ym 1996 (ar y cyd â Wolverhampton, Coventry a Rugby). Hon oedd yr oedfa olaf, gwaetha'r modd. Daeth cynulleidfa gref ynghyd o bell ac agos i ddiolch am y dystiolaeth Gymraeg yma oddi ar 1968, a chyn hynny yn Suffolk Street a Granville Street. Dw innau'n diolch am y naw mlynedd hynod o hapus ges i yma, ac yn gweddïo y caiff cenhedlaeth arall o Gymry ryw ddiwrnod, rywle, ryw fodd, foliannu'r Arglwydd yn eu mamiaith yn y ddinas gyffrous hon, o fod yn ymsefydlu yma gyda'u galwedigaeth. Dim ond Duw sy'n gwybod!

*Robert Parry*



# Pregethu yn Gymraeg yn Lloegr

Wrth arwain oedfaon yn eglwysi Ealing Green a Cockfosters yn Llundain ddydd Sul, 28 Medi 2025, mi bregethais yng nghapeli Cymraeg Lloegr am y tro olaf – gydag un eithriad nodedig, sef yr eglwys y cefais fy magu ynddi: St John Street, Caer. A minnau wedi cyrraedd fy wythdegau cynnar, penderfynais mai 2025 fyddai fy ymweliad olaf â'n heglwysi ym Mhenbedw, Heathfield Road a Waterloo yn Lerpwl, Oaker Avenue ym Manceinion, Bethel yn Birmingham, Coventry a'r ddau gapel yn Llundain a enwyd yn barod. Heb ddim amheuaeth, roedd hwn yn benderfyniad anodd i'w wneud gan fy mod i (a phob pregethwr arall o Gymru, mae'n sicr) wedi profi croeso unigryw gan y Cymry alltud ym mhob un o'r llefydd yma, ac mewn llawer o lefydd eraill dros y ffin.

Dechreuais fy ngweinidogaeth lawn amser yn 1993 ar ôl treulio tri deg o flynyddoedd fel athro. Roedd fy ngofalaeth gyntaf (fel gweithiwr cenhadol am y tair blynedd gyntaf) yn Nyffryn Ceiriog, gydag un o'm chwe eglwys, sef Weston Rhyn, dros y ffin yn Swydd Amwythig. Roedd gan rai o'm haelodau acen Salop pan oedden nhw'n siarad Saesneg – yn cynnwys Arwyn Jones ('Arry' i'r rhai oedd wedi tyfu i fyny yn y pentref efo fo); Gwyn Evans, y llawfeddyg arbennig yn Ysbyty Gobowen, a'r unigryw Miss Mona E. Jones. Hi oedd un o'r ychydig bobl oedd heb deledu, ond bob blwyddyn hi fyddai'n ennill pob cwis roeddem yn ei gynnal. Bellach, mae'r achos yma a bron pob capel Cymraeg yn yr ardal yn cydaddoli yn Seion, capel y Bedyddwyr, Glynceiriog.

Ddim ymhell o Weston Rhyn mae Croesoswallt, y dref Gymreigiaf ym Lloegr, medden nhw. Pan es i i'r ardal yn 1993, roedd yna dri chapel Cymraeg yno, yn cynnwys Seion, y capel Presbyteraidd. Roedd ei sêt fawr yn llawn o ddynion sylweddol, yn cynnwys Griff Richards, oedd yn enwog am yr epistolau roedd yn eu hanfon i'r pregethwyr ychydig ddyddiau cyn eu hymweliadau. Mae'n drist bod dyddiau'r capel llewyrchus hwn bellach wedi dod i ben.

Gan symud ymlaen i'r Canolbarth, rydym yn dod i Wolverhampton; unwaith neu ddwy yn unig y bûm yno cyn i'r achos ddod i ben adeg Covid. Roedd capel Bethel, Birmingham, wedi dod i fodolaeth yn 1968 ar ôl i nifer o achosion uno. Ymysg y gweinidogion mwyaf adnabyddus a fu yno yr oedd y Parchedigion John Smith, Arthur Wynne Edwards a G. Tudor Owen. Yn 1996 fe ddaeth y Parch. Robert Parry, dyn ifanc o Ddyffryn Clwyd, yno, i ddechrau i fugeilio'r eglwys ym Methel (yn ogystal â Wolverhampton, Coventry a Rugby). Ymhen amser, fe symudodd i Gapel y Groes, Wrecsam, ac wedyn i ofalaeth arall yn Lloegr, yn ardaloedd Lerpwl a Manceinion.

Ar y diwrnod cyntaf o Chwefror eleni, roedd Robert Parry yn ôl ym Methel i lywyddu'r cyfarfod i ddod â'r achos yno i ben. Roedd y capel yn llawn o bobl oedd wedi dal cysylltiad â'r achos yno rywbryd yn y gorffennol. Ond mae'n drist meddwl nad oes yna ddim digon o bobl yno i gynnal yr achos o Sul i Sul o hyn ymlaen. Rhoddwyd cymeradwyaeth gynnes iawn i Mrs Ellen Whitehouse sydd wedi bod yn ysgwyddo'r rhan fwyaf o'r cyfrifoldeb yn ystod y blynyddoedd diwethaf hyn.

Ar y Sul, byddwn yn arfer cael y trên i orsaf Birmingham New Street, cerdded dau gan llath i'r Holiday Inn am y noson, ac yna'n cerdded pedwar can llath wedyn i gyrraedd y capel ar ôl brecwast. Byddwn yn cael mynd i ryw westy am ginio cyn symud ymlaen i gymryd gwasanaeth yn Coventry am 2:30 ac weithiau'n mynd yn ôl i Birmingham ar gyfer arwain gwasanaeth Cymraeg arall gyda'r Annibynwyr yn Loveday Street. Roedd yn brofiad dymunol iawn i rywun oedd â'r egni i gwblhau'r cwrs! Mae'n dda gallu ychwanegu bod achos Coventry yn dal ar agor.

Lawer iawn agosach at fy nghartref yng Nghaer roedd yna gapeli bach Cymraeg yn Ellesmere Port (5 milltir), Runcorn (15 milltir) a Warrington (20 milltir). Cefais amser braf iawn yn ymweld â'r rhain yn aml tan iddyn nhw orfod cau yn eu tro. Un adeg roedd yna o leiaf un capel Cymraeg ym mhob tref ddiwydiannol yn Swydd Gaerhirfryn, a nifer fawr ohonynt mewn gwahanol ardaloedd o Lerpwl a Manceinion gan fod pobl o Gymru'n awyddus i addoli Duw yn iaith eu mamau. Ond, yn anffodus, maen nhw i gyd wedi cau, ar wahân Oaker Avenue ym Manceinion a Heathfield Road yn Lerpwl, a'r achosion yn Waterloo ac ym Mhenbedw yn brwydro'n galed i ddal ati. Dim ond un o'r eglwysi yn y trefi diwydiannol hyn y bûm i ynddi, sef St Helen's Junction, ond pe bawn i ugain mlynedd yn hŷn, mi fyddwn wedi gallu ymweld â nifer ohonynt, mae'n sicr.

Tra oeddwn yn hyfforddi i fod yn athro, deuthum ar draws capel bach yn perthyn i'r Annibynwyr yn nhref Prescot, dim ond rhyw ddwy filltir o'r coleg, ac es yno i bregethu iddyn nhw ryw hanner dwsin o weithiau. Os oedd gan rai o bobl Weston Rhyn dipyn bach o acen yr ardal, roedd rhai o'r rhain yn siarad yn union fel gweddill trigolion ardal Prescot a St Helen's, a hynny'n gwneud i rywun feddwl mai cenhedlaeth eu tadau oedd wedi symud yno o Gymru i chwilio am waith.

Byddai'n ddiddorol gweithio allan faint o addoldai Cymraeg eu hiaith oedd yna yn Lloegr ar eu mwyaf niferus. Faint oedd yna i'r dwyrain o'r Pennines ac yn ardal y Crochendai, ac mewn ambell ddinas arall? Paham nad yw cymaint ohonyn nhw ddim yn bod bellach? Wel, mae yna lawer iawn llai o addoldai Saesneg eu hiaith hefyd, mewn dyddiau pan mae'r mwyafrif o bobl yn well allan yn economaidd. Hefyd, dydy pobl ddim yn teimlo'r angen i gyfarfod yn lleol jest er mwyn cael llefaru yn y Gymraeg mewn dyddiau pan mae rhaglenni Cymraeg ar y teledu a'r gallu i siarad â theulu a ffrindiau ar y ffôn symudol. Mae Facebook, y rhyngrwyd a llu o declynnau eraill yn ei gwneud hi'n llawer haws i bobl fyw yn bell o'u cynefin, ond mae'n drist meddwl bod yr *oasis* o Gymreictod wedi marw allan o lawer o drefi ac ardaloedd yn Lloegr.

*Eric Greene*
*Y Bala*

# Yr Antidot i'n Tlodi Ysbrydol

CARE
Y CYNGOR AR ALCOHOL A CHYFFURIAU ERAILL
ELUSEN AR GYFER DIBYNIAETH, ADFERIAD A GALLUOGI

Rydyn ni'n byw mewn gwlad sy'n gyfoethog o ran diwylliant, iaith a hanes – ac eto'n dawel bach yn cael ei dal yn nwylo tlodi ysbrydol dwfn. Nid tlodi sy'n ymddangos ar daflen gyllideb mohono. Mae'n datgelu ei hun yn hytrach yn ein hunigrwydd, ein blinder, ein caethiwed, a'n teimlad cynyddol fod bywyd rywsut wedi llithro allan o'n gafael.

Mae pobl ym mhobman yn chwilio am rywbeth – hyd yn oed os nad ydynt yn gallu rhoi enw arno. Ystyr. Perthyn. Y teimlad eu bod yn cyfrif. Ac eto, nid yw'r byd modern yn cynnig llawer o leoedd lle gall y chwilio hwnnw ddigwydd yn ddiogel, yn onest, a heb farn.

Dyma lle mae'r Stafell Fyw yn torri tir newydd.

Am bron i bymtheg mlynedd, mae'r Stafell Fyw wedi cynnig rhywbeth prin: man lle mae pobl yn ailddarganfod y bywyd mewnol y mae ymlyniadau wrth bob math o sylweddau ac ymddygiadau niweidiol, trawma a digalondid wedi'i wthio i'r cysgodion. Nid oes dim crefyddol nac athrawiaethol yn ein dealltwriaeth ni o ysbrydolrwydd. Mae'n ymwneud â chysylltiad. Mae'n ymwneud â'r gwirionedd syml ond chwyldroadol fod iacháu'n dechrau'r union eiliad nad yw person bellach ar ei ben ei hun.

Mae pobl yn camu drwy ein drysau gan gario cywilydd, ofn, a'r baich llethol o geisio dygymod â sialensau bywyd ar eu pennau eu hunain. Yr hyn maen nhw'n ei ddarganfod yw cymuned sy'n eu croesawu gyda thynerwch, gonestrwydd a phrofiad byw – pobl sydd wedi teithio'r un tir o golled ac sydd wedi dod o hyd i ffordd adref. Yn bennaf, profant gariad diamod. A'r cariad hwnnw yw'r concwerwr mawr.

Mae trawsnewid yn digwydd yn dawel. Yn araf. Un sgwrs, un mewnwelediad, un foment o ddewrder ar y tro. Ond mae'n wir. Dro ar ôl tro rydyn ni'n gweld pobl yn deffro i'r posibilrwydd y gall eu bywyd fod yn wahanol; nad ydynt wedi'u condemnio i ailadrodd y patrymau a'u niweidiodd cymaint; fod gobaith – yn syndod – o fewn cyrraedd.

Ni ellir iacháu tlodi ysbrydol ein cenedl gan sefydliadau'n unig. Ni ellir ei ddatrys gan bapurau polisi na chyfarwyddiadau da eu bwriadau. Mae angen mannau lle gall bodau dynol ailddarganfod eu hunain. Mannau lle maen nhw'n dysgu ymddiried eto. Mannau lle maen nhw'n darganfod eu gwir werth.

Mae'r Stafell Fyw yn fan felly. Man lle mae'r daith o hunan-adnabyddiaeth yn dod yn gonglfaen adferiad. Man lle mae pobl yn adennill eu hurddas ac yn ailadeiladu bywydau a oedd unwaith yn teimlo'n anghyfannedd. Man lle mae'r antidot i dlodi ysbrydol yn cael ei fyw, ei rannu, a'i wneud yn real – trwy gysylltiad, tosturi, a dewrder distaw pob person sy'n dewis dechreuad newydd.

Dyma'r gwaith.
Dyma'r trawsnewid.
Dyma'r gobaith y mae ein gwlad yn chwilio amdano.

*Wynford Ellis Owen*
*Prif Weithredwr y Cyngor ar Alcohol a Chyffuriau Eraill; ac Ymgynghorydd Cwnsela Arbenigol i'r Stafell Fyw, Cynnal a Lle i Fyw.*

www.stafell-fyw.uk ; www.cynnal.uk ; www.cyngor-adferiad.org

Ffôn: 07796464045 / 029 2063 0993.
Ebost: wynford@recovery-council.org




Os ydych yn poeni am unigolyn neu sefyllfa ac angen cyngor diogelu, cysylltwch â'r Panel Diogelu Cydenwadol 01745817584 / 07957510346 yn ystod oriau swyddfa
post@panel.cymru panel.cymru
neu Thirtyone:eight 0303 003 1111
(am gyngor tu allan i oriau swyddfa)

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru